Centre of expertise on child sexual abuse

# Cam-drin plant yn rhywiol yn 2020/21: Tueddiadau mewn data swyddogol

## Crynodeb gweithredol

Kairika Karsna

Ebrill 2022



csacentre.org.uk

## Am yr awdur

Mae Kairika Karsna yn uwch-swyddog ymchwil a gwerthuso yn y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol. Mae ei gwaith yn canolbwyntio ar wella dealltwriaeth ar raddfa a natur cam-drin plant yng Nghymru a Lloegr.

## Gair am y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol (Canolfan CPRh)

Ein nod cyffredinol yw lleihau effaith cam-drin plant yn rhywiol drwy atal ac ymateb gwell, fel bod plant yn gallu byw'n rhydd o fygythiad a niwed cam-drin rhywiol.

Rydym yn dîm amlddisgyblaeth, wedi ein hariannu gan y Swyddfa Gartref a'n gweinyddu gan Barnardo's. Gweithiwn yn agos â phartneriaid allweddol o sefydliadau academaidd, awdurdodau lleol, iechyd, addysg, yr heddlu a'r sector gwirfoddol.

Y nodau y gweithiwn i'w cyrraedd yw:

- cynyddu'r flaenoriaeth a roddir i gam-drin plant yn rhywiol, drwy wella dealltwriaeth o'i raddfa a'i natur
- sicrhau bod mwy'n cael ei wneud i adnabod ac ymateb yn well i blant a phobl ifanc sydd wedi eu cam-drin yn rhywiol
- galluogi tarfu ac atal cam-drin plant yn rhywiol yn fwy effeithiol, drwy well dealltwriaeth o ymddygiad/parhad sy'n cam-drin yn rhywiol.

Rydym yn ceisio cyflwyno'r newidiadau hyn drwy:

- cynhyrchu a rhannu gwybodaeth am raddfa a natur cam-drin plant yn rhywiol, a'r ymateb iddo
- mynd i'r afael â bylchau mewn gwybodaeth drwy rannu ymchwil a thystiolaeth
- datblygu Llwybr Ymateb Cam-drin Plant yn Rhywiol amlasiantaethol, ac adnoddau cysylltiedig
- darparu hyfforddiant a chymorth i weithwyr proffesiynol ac ymchwilwyr sy'n gweithio yn y maes
- ymgysylltu â pholisi a dylanwadu arno.

# Crynodeb gweithredol

Mae deall graddfa a natur cam-drin plant yn rhywiol yn allweddol i wella ymatebion iddo. Gyda'r adroddiad hwn, rydym ni yn y Ganolfan arbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol (Canolfan CPRh) yn parhau â chyfres o gyhoeddiadau sy'n rhoi tystiolaeth gyfredol i weithwyr proffesiynol a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau am gam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru a Lloegr. Mae'r adolygiad hwn yn canolbwyntio ar yr achosion a *gofnodwyd* o gam-drin plant yn rhywiol yr ymatebodd gweithwyr proffesiynol iddynt yn 2020/21, gan ddefnyddio'r dystiolaeth ddiweddaraf sydd ar gael o'r data swyddogol a ryddhawyd gan asiantaethau amddiffyn plant, cyfiawnder troseddol ac iechyd yng Nghymru a Lloegr.

Dylid nodi bod data asiantaethau yn ymwneud â lleiafrif bach yn unig o achosion cam-drin plant yn rhywiol sy'n digwydd mewn cymdeithas. Rydym yn amcangyfrif bod o leiaf 15% o ferched a 5% o fechgyn yn cael eu cam-drin yn rhywiol cyn eu bod yn 16 oed; mae nifer yr achosion o gam-drin plant yn rhywiol a gofnodwyd mewn data asiantaethau swyddogol ac a grynhoir yn yr adroddiad hwn yn llawer is na'r amcangyfrifon hyn o raddfa. (Am y dystiolaeth o'r arolwg ddiweddaraf ar nifer yr achosion, gweler ein hadroddiad yn 2021 *Graddfa a Natur y Cam-drin Plant yn Rhywiol: Adolygu'r Dystiolaeth* yn **www.csacentre.org.uk/documents/scale-nature-review-evidence-0621-welsh/**.) Serch hynny, mae data asiantaethau yn adnodd gwerthfawr, yn anad dim am ei fod yn cael ei gasglu yn unol â'r un diffiniadau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol: mae hyn yn ei gwneud yn bosibl monitro sut mae'r broses o adnabod ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol wedi newid dros amser, a sut mae awdurdodau lleol, heddluoedd a chanolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol yn wahanol ar hyn o bryd o ran adnabod, canfod ac ymateb.

## Data amddiffyn plant yn 2020/21

Ar hyd y flwyddyn, cofnododd gwasanaethau plant awdurdodau lleol yn Lloegr bryderon am gam-drin plant yn rhywiol mewn 29,640 o asesiadau o blant, ac am gam-fanteisio'n rhywiol ar blant (sydd, er ei fod yn fath o gam-drin plant yn rhywiol, yn cael ei drin ar wahân mewn asesiadau o'r fath) mewn 16,830 o asesiadau. Mae canran yr asesiadau sy'n cofnodi risg o gam-drin plant yn rhywiol neu gam-fanteisio'n rhywiol ar blant wedi gostwng ychydig yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac roedd yn 9% o gyfanswm yr asesiadau yn 2020/21.

Er nad oes rheswm dros gredu bod nifer yr achosion o gam-drin plant yn rhywiol yn amrywio'n sylweddol rhwng gwahanol ranbarthau yng Nghymru a Lloegr, roedd awdurdodau lleol yn amrywio'n sylweddol o ran adnabod cam-drin plant yn rhywiol a cham-fanteisio'n rhywiol ar blant yn yr asesiadau hyn. Er i ddau awdurdod lleol nodi nad oedd unrhyw blentyn oedd yn achos pryder o ran cam-drin rhywiol, nododd pum awdurdod lleol fwy na 70 am bob 10,000 o blant sy'n byw yn yr ardal. Canfuwyd y cyfraddau adnabod uchaf yn rhanbarthau Gogledd Ddwyrain Lloegr a Swydd Efrog a'r Humber, tra bod cynghorau Llundain yn tueddu i fod â chyfraddau is. Roedd llai o wahaniaeth rhanbarthol o ran cofnodi cam-fanteisio'n rhywiol ar blant fel ffactor mewn asesiadau, gan awgrymu dull mwy cyson sy'n debygol o fod yn gysylltiedig ag adnoddau, hyfforddiant a blaenoriaethu cam-fanteisio rhywiol dros y 10 mlynedd diwethaf.

## Dull ymchwil

Er nad oes gwybodaeth gyffredinol ar gael i'r cyhoedd am y camau a gymerwyd yn dilyn asesiadau o'r fath, cyhoeddir data manwl ar y rhesymau dros leoli plant ar gynlluniau amddiffyn plant yn Lloegr, neu ar y gofrestr amddiffyn plant yng Nghymru. Mae hyn yn dangos mai dim ond 2,450 o blant yn Lloegr – tua un o bob ugain o'r nifer lle cofnodwyd yn eu hasesiadau cychwynnol bryderon cam-drin neu gam-fanteisio'n rhywiol ar blant - ar gynlluniau amddiffyn plant o dan y categori cam-drin rhywiol (sy'n cynnwys achosion o gam-fanteisio'n rhywiol ar blant) yn 2020/21. Er bod nifer cyffredinol y cynlluniau amddiffyn plant newydd wedi gostwng ychydig, mae'r gostyngiad yn y cynlluniau o dan y categori cam-drin rhywiol wedi bod yn fwy serth; gostyngiad o 6% yn 2020/21, yn dilyn gostyngiad o 12% y flwyddyn flaenorol. Rhoddwyd cyfanswm o 500 yn llai o blant ar gynlluniau amddiffyn plant yn 2020/21 oherwydd cam-drin rhywiol na dwy flynedd yn gynharach, a bu gostyngiad yng nghyfran y cynlluniau amddiffyn a oedd yn cofnodi pryderon cam-drin rhywiol i lefel is nag erioed o lai na 4%. Yng Nghymru, gwnaed 221 (6%) o'r holl gofrestriadau amddiffyn plant o dan y categori cam-drin rhywiol, weithiau ochr yn ochr â mathau eraill o gam-drin/esgeulustod.

Roedd proffil demograffig y plant a leolwyd ar gynlluniau amddiffyn plant oherwydd cam-drin rhywiol yn parhau'n debyg i flynyddoedd blaenorol. Roeddent yn fwy tebygol o fod yn fenywod na dynion; yn tueddu i fod yn hŷn na'r rhai a osodwyd ar gynlluniau amddiffyn plant am resymau eraill; ac, o'i gymharu â'r boblogaeth o blant sy'n mynychu ysgolion a meithrinfeydd gwladol, yn fwy tebygol o fod yn Wyn ac yn llai tebygol o fod o gefndiroedd Asiaidd.

Yn yr un modd ag y cofnodwyd pryderon cam-drin rhywiol mewn asesiadau o blant, roedd amrywiad rhanbarthol sylweddol o ran lleoli plant ar gynlluniau amddiffyn neu'r gofrestr amddiffyn plant. Gosododd traean o awdurdodau lleol yn Lloegr - gan gynnwys y rhan fwyaf o'r rheini yng nghanol Llundain- bump o blant neu lai ar gynllun o dan gategori cam-drin rhywiol, tra bod y cyfraddau uchaf wedi'u cofnodi yn rhanbarthau Gorllewin Canolbarth Lloegr a Swydd Efrog a'r Humber. Roedd lleoliadau fel cyfran o'r boblogaeth leol o blant yn uwch ar gyfartaledd yng Nghymru nag yn Lloegr, er bod mwy na dwy ran o bump o awdurdodau lleol Cymru wedi lleoli llai na dau blentyn fesul 10,000 o blant ar y gofrestr oherwydd cam-drin rhywiol.

## Troseddau rhywiol yn erbyn plant a gofnodwyd gan yr heddlu 2020/21

Cofnododd heddluoedd yng Nghymru a Lloegr 89,200 o droseddau hysbys o gam-drin plant yn rhywiol (gan gynnwys troseddau'n ymwneud â delweddau cam-drin plant yn rhywiol) yn ystod y flwyddyn, ychydig yn fwy nag yn 2019/20. Roedd mwy na thraean o'r rhain yn droseddau delwedd, traean arall yn ymwneud â threisio neu ymosodiadau rhywiol, ac roedd y gweddill yn ymwneud â gweithgarwch rhywiol, hudo plant i berthynas rywiol amhriodol a cham-drin drwy gam-fanteisio rhywiol. O'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, roedd gostyngiadau sylweddol yn nifer y troseddau rhywiol a gofnodwyd a gyflawnwyd gan bobl mewn swyddi o ymddiriedaeth, troseddau gweithgarwch rhywiol, a throseddau trais rhywiol neu ymosodiad rhywiol yn erbyn plentyn gwrywaidd. Bu cynnydd o 18% mewn troseddau delweddau cam-drin plant yn rhywiol y cynnydd mwyaf mewn blwyddyn ers 2003/04.

Nododd yr heddluoedd bod tair gwaith yn fwy o achosion troseddau cam-drin plant yn rhywiol a gofnodwyd o'u cymharu â maint eu poblogaeth plant. Roedd y cyfraddau'n tueddu i fod ar eu hisaf yn Llundain a De-ddwyrain Lloegr, tra mai yn rhanbarthau Gogledd Ddwyrain Lloegr, Gogledd Orllewin Lloegr a Swydd Efrog a Humberside oedd y rhanbarthau â'r cyfraddau cofnodi cyfartalog uchaf.

Daeth un o bob saith ymchwiliad heddlu i ben gyda'r un dan amheuaeth yn cael ei gyhuddo, ei alw i'r llys, ei rybuddio neu roi 'gweithgarwch dargyfeiriol neu ymyrraeth' iddo neu iddi. Caewyd bron i ddwy ran o dair o achosion oherwydd anawsterau'n ymwneud â thystiolaeth o ryw fath. Roedd y cyhuddiadau'n fwy tebygol o ymwneud â throseddau cam-fanteisio rhywiol a hudo plant i berthynas rywiol amhriodol, ac yn llai tebygol o ymwneud â throseddau oedd yn cynnwys gweithgarwch rhywiol a thrais rhywiol.

Dros y saith mlynedd diwethaf, bu gostyngiad sydyn yng nghyfran yr ymchwiliadau i droseddau cam-drin plant yn rhywiol a arweiniodd at gyhuddiad, o bron i draean i ddim ond 10% yn 2018/19, cyn cynyddu i 12% yn y flwyddyn gyfredol.

## Achosion llys yn 2020

Yn y flwyddyn hyd at fis Rhagfyr 2020, cyflwynwyd achosion llys yn erbyn 6,943 o ddiffynyddion am droseddau cam-drin plant yn rhywiol, ac roedd 4,649 o gollfarnau. Bu cynnydd o 9% mewn erlyniadau, o ganlyniad i flaenoriaethu achosion yn ymwneud â throseddau difrifol gan y llysoedd. Daeth dwy ran o dair o'r erlyniadau i ben gydag euogfarn: gostyngiad o dri chwarter yn y flwyddyn flaenorol. Roedd y gyfradd gollfarnu ar ei huchaf ar gyfer troseddau delwedd cam-drin plant yn rhywiol ac ar ei hisaf ar gyfer troseddau treisio.

Cafodd mwy na thraean o'r diffynyddion a gafwyd yn euog ddedfryd o garchar ar unwaith, a chafodd traean arall ddedfryd ohiriedig. Roedd dedfrydau o garchar ar unwaith yn llai tebygol am droseddau delwedd a hudo plant i berthynas rywiol amhriodol ac ar gyfer troseddwyr o dan 18 oed.

O'i gymharu â blynyddoedd blaenorol, bu gostyngiad o ran erlyn pobl dan 18 oed, a oedd yn cynnwys dim ond 3% o ddiffynyddion. Dynion yn bennaf oedd y diffynyddion (98%), fel mewn blynyddoedd blaenorol. Ymhlith erlyniadau lle cofnodwyd proffil ethnig y diffynyddion, roedd hyn yn weddol debyg i'r boblogaeth ehangach yng Nghymru a Lloegr.

## Plant sy'n mynychu canolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol yn 2020/21

Gwelodd canolfannau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol (SARCs) yn Lloegr 7,244 o blant yn ystod y flwyddyn, 20% yn fwy nag yn y flwyddyn flaenorol. Roedd hanner y rhain rhwng 14 a 17 oed, ac roedd pump allan o chwech yn fenywod. Roedd y mwyafrif llethol yn blant Gwyn Prydeinig, gyda phlant Asiaidd yn cyfrif am y gyfran leiaf o gysylltiadau SARC o'u cymharu â'u cyfran o boblogaeth oedran ysgol yn Lloegr.

Er bod y rhan fwyaf o blant yn parhau i gael eu gweld wyneb yn wyneb, gwelwyd dwy ran o bump – nifer sylweddol uwch nag yn 2019/20 – o bell. Mae hyn yn debygol o fod yn gysylltiedig â chyfyngiadau sy'n gysylltiedig â COVID-19 i gyswllt wyneb yn wyneb, ac arweiniodd at gynnydd cyffredinol yng nghysylltiadau SARCs Lloegr â phlant yn ystod y flwyddyn. Roedd gwaith y Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol yn amrywio'n fawr ar draws y saith rhanbarth iechyd, gyda Llundain yn cyrraedd at y nifer lleiaf a De-orllewin Lloegr yn cyrraedd at y nifer uchaf ymhlith pobl ifanc dan 18 oed.

Roedd yr atgyfeiriadau i'r Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Cyffredinol yn fwyaf tebygol o fod gan yr heddlu (dwy ran o dair) neu wasanaethau plant (chwarter).

## Casgliadau

Mae bwlch mawr o hyd – sy'n tyfu - rhwng yr amcangyfrifon o nifer yr achosion o gam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru a Lloegr a'r hyn a gofnodir mewn data swyddogol. Er ei bod yn ymddangos nad yw pandemig COVID-19 wedi cael fawr o effaith weladwy ar lefel y cam-drin plant yn rhywiol a gofnodwyd mewn data swyddogol, mae'r duedd hirdymor tuag i lawr mewn ffigurau amddiffyn plant, ac mewn troseddau cyswllt a adroddwyd i'r heddlu, yn peri pryder mawr. Yn ogystal â hyn, mae angen dybryd i arweinwyr lleol fynd i'r afael â'r amrywiad daearyddol mawr o ran adnabod cam-drin plant yn rhywiol, fel nad yw lle mae plant yn byw yn effeithio ar ba mor debygol yw hi y caiff eu camdriniaeth ei nodi, ei chanfod neu yr ymatebir iddi.

> "Mae angen dybryd i arweinwyr lleol fynd i'r afael â'r amrywiad daearyddol mawr o ran nodi achosion o gam-drin plant yn rhywiol"

Gellir lawrlwytho fersiwn Saesneg o'r adroddiad cyflawn yn
**www.csacentre.org.uk/our-research/the-scale-and-nature-of-csa/measuring-the-scale-and-nature-of-csa/**

Tynnwyd y llun sydd ar y clawr drwy ddefnyddio actorion ac nid yw'n dangos sefyllfa go iawn.

Barnardo House, Tanners Lane, Barkingside, Ilford, Essex IG6 1QG
E: info@csacentre | @csacentre
**www.csacentre.org.uk**

23135shc22